Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes

**Digwyddiad i lansio ymgyrch 'Know Type 1' – Ddydd Mawrth 13 Mehefin**

Y Pierhead, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sylwadau agoriadol a chroesawu'r gwestai

**Jayne Bryant AC** (Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes)

Rhoddodd Jayne Bryant AC araith i gyflwyno'r digwyddiad, gwaith y grŵp trawsbleidiol a ffocws yr ymgyrch benodol hon.

- Trafodwyd hanes y grŵp trawsbleidiol ar ddiabetes o dan ei Gadeirydd blaenorol. Mae'r grŵp yn gobeithio adeiladu ar ei waith da blaenorol yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.
- Nodwyd nifer yr achosion o ddiabetes yn y DU – un o'r heriau iechyd mwyaf
- Pwysleisiwyd y gwahaniaethau rhwng diabetes math 1 a diabetes math 2, yn ogystal â'r prif arwyddion a symptomau a all awgrymu diagnosis o ddiabetes math 1.
- Thema Wythnos Diabetes 2017 yw canolbwyntio ar adnabod symptomau diabetes er mwyn trin diabetes ('Know Diabetes. Fight Diabetes'). Y nod yw codi ymwybyddiaeth o ddiabetes a mynd i'r afael â'r heriau gyda'n gilydd.
- Cyflwynwyd Beth Baldwin, y siaradwr cyntaf, sydd, ynghyd â'i theulu, wedi codi dros £65,000 ar gyfer Diabetes UK ers colli Peter, ei mab, yn 2015 oherwydd diabetes math 1.

**Beth Baldwin** (Mam)

Soniodd Beth Baldwin am ei phrofiad o ddiabetes math 1 a marwolaeth Peter, ei mab, a fu farw yn 2015 yn 13 oed.

- Aeth Peter yn sâl Ddiwrnod Calan 2015, a bu farw o fewn wythnos. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd Peter ddiagnosis o ddiabetes math 1, ond daeth y diagnosis yn rhy hwyr i'w achub.
- Trafodwyd symptomau Peter a nifer o ymweliadau â'r meddyg teulu pan ddywedwyd bod gan Peter firws neu haint. Pe bai'r symptomau wedi'u hadnabod yn gynt, mae'n bosibl y byddai'r meddygon wedi llwyddo achub bywyd Peter.
- Soniwyd am yr effaith ar y teulu o golli Peter i'r cyflwr hwn a'r effeithiau dinistriol y gall diabetes math 1 eu cael.

- Ers marwolaeth Peter, mae Beth a'r teulu wedi gwneud popeth y gallant i godi ymwybyddiaeth o ddiabetes math 1, ac maent wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lansio'r ymgyrch 'Know Type 1'.
- Bydd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fewn gofal sylfaenol i geisio sicrhau diagnosis cynnar o ddiabetes math 1 ac atal risgiau ychwanegol.

**Yr Athro Rhys Williams** (Ymddiriedolwr Diabetes UK)
Diolchodd i Beth am rannu ei stori ac am y cyfraniad amhrisiadwy y mae hi a'i theulu wedi'i wneud at Diabetes UK er cof am Peter, ei mab.
Rhoddwyd mwy o fanylion am ddiabetes math 1 a nifer yr achosion yng Nghymru:

- Mae gan tua 1,400 o blant a phobl ifanc yng Nghymru ddiabetes math 1. Ni ellir ei atal ar hyn o bryd ac nid wyddys am unrhyw ffactorau penodol sy'n ei achosi, ond gall arwyddion a symptomau ddatblygu'n gyflym. Gall ddatblygu ar unrhyw adeg, ond mae'n fwy cyffredin ymhlith plant neu oedolion ifanc.
- Cafodd 2,834 o blant a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr ddiagnosis yn 2015/16.
- Dechreuad cyflym – yn mynd yn ddifrifol wael yn gyflym, a gall arwain at farwolaeth heb driniaeth.
- Nid yw 16 y cant o blant yn cael diagnosis hyd nes y byddant yn wynebu cetoacidosis diabetig, sef argyfwng sy'n bygwth bywyd ac sy'n galw am sylw meddygol brys. Yn y grŵp oedran dan 5 oed, mae hyn yn cynyddu i 24 y cant. Y rheswm am hyn yw bod symptomau cynnar diabetes math 1 yn cael eu colli.
- Gall ystod o afiechydon cyffredin sy'n effeithio ar blant, fel ffliw, firws, heintiau dŵr neu heintiau'r frest guddio symptomau diabetes math 1, gan arwain at ddiagnosis hwyr neu gamddiagnosis.
- <u>Y Symptomau</u>
  - Nod ymgyrch 'Know Type 1' Diabetes UK Cymru yw codi ymwybyddiaeth o symptomau diabetes math 1, sut i'w hadnabod a sut i sicrhau diagnosis cyflym. Gelwir y rhain yn 4T yn Saesneg:
  - **Tŷ Bach/'Toilet'** – Mynd i'r tŷ bach yn aml, plentyn yn gwlychu'r gwely heb wneud hynny o'r blaen, neu gewynnau babanod sy'n drymach nag arfer.
  - **Syched/'Thirsty'** – Bod â syched mawr na ellir ei dorri.

- **Blinder/'Tired'** – Teimlo'n fwy blinedig nag arfer.
- **Teneuach/'Thinner'** – Colli pwysau neu edrych yn deneuach nag arfer.

Trwy adnabod symptomau'n gynharach, a chael prawf pigo bys, gellir sicrhau diagnosis o ddiabetes math 1 yn gyflym.

- <u>Y dyfodol</u>
  - Mae Diabetes UK Cymru yn gweithio gyda'r GIG, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd i:
    - wella ymwybyddiaeth o'r symptomau a'r camau i'w cymryd ymhlith pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os yw plentyn neu berson ifanc yn dangos symptomau diabetes math 1;
    - gwella ymwybyddiaeth o'r symptomau a'r camau i'w cymryd ymhlith staff mewn ysgolion yng Nghymru;
    - gwella ymwybyddiaeth o'r symptomau a'r camau i'w cymryd ymhlith rhieni, teuluoedd a'r boblogaeth yn gyffredinol; a
    - sicrhau bod canllawiau NICE yn cael eu dilyn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng18/chapter/1-Recommendations#diagnosis.

*Dangoswyd fideo byr ynghylch yr ymgyrch 'Know Type 1' a delweddau gan yr elusen. Wedyn, cafwyd cinio a chyfle i rwydweithio cyn cau'r digwyddiad. Diolchodd Sara Moran o Diabetes UK i'r gynulleidfa am fod yn bresennol.*